

Y GLYDERAU

Nid yw cefnfen Y Glyderau yn cael ei dorri mewn gwirionedd gan unrhyw fwllch hawdd ei groesi. Ond, mae Llwybr yr Offeiriad yn croesi Bwlch y Brecan, llwybr a gymerwyd gan offeiriaid i gyrraedd Nant Peris (sef y Llanberis gwreiddiol) o Abergwyngregyn. Roedd Llwybr y Mwynwyr dros Fwllch Tryfan a heibio Glyder Fach yn caniatáu i ddynion o Ogwen gyrraedd mwyngloddiau copr Cwm Glaslyn a Llydaw ar Yr Wyddfa.

Bwlch Blaen Cwm Idwal SH 642587

Mae'r enw yn dynodi ei leoliad ar blaen 'diwedd, pen' Cwm Idwal. Un hen enw yn yr ardal oedd Trigfylchau, er gall yr enw fod yn berthnasol fel enw gwreiddiol Clogwyn y Geifr hefyd. Mae Edward Lhuyd yn ei lyfr *The Welsh Counties* 1694 yn sôn am daith fotanegol 'ger neu un o'r Tregvylchau neu Treiglfulchau' ar ochr ogledd-orllewin y Glyder; ystyrid y Glyder Fawr a'r Glyder Fach yn un mynydd ar y pryd. Yn ei lyfr *A tour through a Part of North Wales* 1798 mae J Evans yn gosod yr enw yn gadarn rhwng Llyn Cwn a Llyn Idwal. Os enw ar adwyon sydd, yna tri 'tair' + cyf-'rhagddodiad cryfhaol' + bylchau 'adwyon'. Wrth edrych i fyny'r cwm o Lyn Idwal, byddai wedi edrych fel pe bai tair ffordd i fyny i'r brig; y Twll Du yn y canol llinell ar lethr i fyny i'r chwith ac un arall yn anelu i fyny i'r dde.

Bwlch Caseg Fraith SH 670584

Caseg 'ceffyl benywaidd' + braith 'ysmotiog'. Roedd cryn dipyn o 'greddau' ynglŷn â gwerth neu allu ceffyl dim ond drwy edrych ar eu lliw; er enghraifft, ni ystyriwyd yn dda prynu ceffyl â phedair troed wen.

Bwlch Goleuni SH 697582

Tybed os yw'r term goleuni 'yn olau, golau, goleud' yn cyfeirio at y digwyddiad cyffredin o'r disgleirdeb a welir drwy'r bwlch o dan y cymylau. Bwlch Oleuni 1790 Llawysgrifau Penrhyn, mae Thomas Pennant yn cyfeirio at Bwlch Oleuni yn ei lyfr *Tours of Wales*.

Bwlch Melynwyn SH 608611

Melynwyn yw'r term am liw gwyn hufennog, lliw gwellt neu hyd yn oed melyn gwan; gall ei gysylltu â lliw glaswelltau mynydd yn y gaeaf. Bulchmellonen 1269 Litterie Wallie.

Bwlch Tryfan SH 661589

Y bwlch sy'n gwahanu Tryfan a'r Glyder Fach, mae i'w weld fel enw ar gyfres mapiau AO 6" 1888-1915. Mae'n anodd gwybod pa mor hen yw'r enw hwn.

Bwlch y Brecan SH 625616

Breca'n 'llai gwlân fras', a gysylltir â'r Gwyddelig breac 'tartan, plaid'; fodd bynnag, yn ei *Archeologia Britannica* 1707 ysgrifennodd Edward Lhuyd: 'Bryccan, A blanket. [Brec in the language of the upland denotes Brith 'mottled']'. Roedd llwybr dros y bwlch wedi ei enwi ar ôl yr offeiriad(au) a fyddai'n gorfod ei groesi, wrth ddod o Abergwyngregyn, i gynnal gwasanaethau yn Nant Peris (y Llanberis gwreiddiol); mae rhywun yn dal i allu gweld Llwybr yr Offeiriad yn y dirwedd heddiw.

Bwlch y Cywion SH 627602

Fe all gysylltu'r gair cywion at un ifanc o unrhyw anifail, ond enwedig ebolion. Bwlch-y-cywion 1838 AO.

Bwlch y Ddwy Glyder SH 650581

Yn syml y cyfrwy rhwng y ddwy cludair, cluder 'pentwr'. Mae hwn yn enw cymharol fodern; oherwydd, o leiaf hyd at ddechrau'r 18fed ganrif. Ar yr AO 6" 1840-80 Bwlch Dwyglydion yw enw'r nant sy'n arwain i'r De, mae'r enw hwn dal yno ar fapiau 6" 1888-1915; fodd bynnag, ar yr un

map fe welir yr enw Bwlch y Ddwy-Glyder yn arwain i lawr y crib yr hyn sydd bellach yn dangos yr enw Y Gribin.

Bwlch y Gwryd/Pen y Gwryd SH 660557

Y tebygrwydd yw mai enw a godwyd o'r afon, Nant y Gwryd. Gweler Atodiad 1.

Bwlch y Gwyddyl SH 654553

Mae gwyddyl yn ffurf amrywiol y gair Gwyddel 'un o Iwerddon'; ond, rhaid ystyried mai ffurf llygredig ar gwyddwal 'perthi, anialwch dreiniog'; neu, gwyddel 'anialwch' sydd.

Bwlch y Marchlyn SH 619615

Wedi ei enwi ar ol y llyn Marchlyn; ond merchlyn oedd un hen enw llygredig ar y bwlch.

Mynyddoedd.co.uk